


Cymraeg Safon Uwch – **Help Llaw**  
gydag astudio

# Y Gododdin, Aneirin



Yr Athro Gwyn Thomas

@ebol

## Cydnabyddiaethau

Dyluniwyd gan **Stiwdio Ceri Jones**, [stiwidio@ceri-talybont.com](mailto:stiwidio@ceri-talybont.com)  
Paratowyd gan **Atebol Cyfyngedig**, Adeiladau'r Fagwyr,  
Llanfihangel Genau'r Glyn, Aberystwyth, Ceredigion SY24 5AQ  
**[www.atebol.com](http://www.atebol.com)**

Noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

## Y Gododdin

### AWDL XXIV

Un awdl yw hon o gasgliad o dros gant ohonynt sydd yn cael ei alw yn *Y Gododdin*, gwaith a dadogir ar fardd o ail hanner y chweched ganrif o'r enw Aneirin. Y mae'r 'Gododdin' yn enw ar y casgliad hwn o gerddi, yn enw ar y llwyth y canwyd yr awdlau iddo, ac yn enw ar diriogaeth y llwyth hwnnw, ac fe ddefnyddir yr enw i gyfeirio at y tri pheth hyn yn y casglaid o awdlau. Cymraeg yw iaith yr awdlau, iaith a oedd, yn y chweched ganrif, wedi datblygu o'i mam-iaith, sef Brythoneg. Y prif newidiadau wrth i'r Frythoneg esblygu yn Gymraeg oedd fod cytseiniaid rhwng llafariad yn treiglo, a bod terfyniadau geiriau'n cael eu gollwng, fel hyn:

Brythoneg: *abona*

*b* yn treiglo rhwng y llafariad *a* ac *o* > *f* = *afona*

colli'r terfyniad *a* (sy'n dynodi enw benywaidd) >

Cymraeg: *afon*.

Y mae'n rhaid fod y newid o'r Frythoneg i'r Gymraeg wedi sadio digon erbyn ail hanner y chweched ganrif i Aneirin fedru canu ei awdlau yn Gymraeg. (Os ydych am gael golwg ar ymgais i heneiddio iaith y canu, fe ellwch droi at gyfrol gan John T. Koch.) Y mae awdlau *Y Gododdin* yn perthyn i'r darn o Brydain a elwid yn 'Hen Ogledd': y mae hyn, wrth reswm, yn golygu fod yna Gymry yn yr ardal honno yn y chweched ganrif – yr oedd yno lwythau eraill hefyd, megis Gwyddyl a Phictiaid. Cyfeirio at rannau o Ogledd Lloegr a De'r Alban y mae'r enw 'Hen Ogledd', ac yr oedd yno amryw deyrnasoedd Cymreig (weithiau fe'u gelwir yn deyrnasoedd Brythonig). Yr oedd teyrnas Gododdin yn ymestyn o gwmpas aber yr afon Forth (Merin Iudew), ac yn ymestyn i lawr gogledd Prydain, ond nid hyd at y môr, mae'n debyg, am fod teyrnas yr Eingl, o'r enw Brynaich, ar yr arfordir gogledd-ddwyreiniol. Hynny yw, ni wyddom beth yn hollol oedd ffiniau teyrnas Gododdin. Yr oedd prif gaer y deyrnas yn Nin Eidyn (Din = caer), sef Caer Edin (Edinburgh) – ar safle'r castell sydd uwchben prif stryd y ddinas heddiw. Credai Syr Ifor Williams, a ddar'au weithio allan ystyron yr hen awdlau hyn, mai enw pennaeth y Gododdin oedd Mynyddawg Mwynfawr (Mawr ei Gyfoeth), ond y mae rhai ysgolheigion ar ei ôl wedi amau hynny.

I ni y mae'r gair 'awdl', fel arfer, yn dwyn i'r meddwl seremoni cadeirio bardd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, cadeirio cerdd mewn cynghanedd ac ar fesurau caeth; ond yn amser *Y Gododdin* cerdd, fer fel rheol, â llinellau ynddi hi'n odli oedd awdl. Yn yr awdl hon dan sylw (rhif XXIV yng ngolygiad Ifor Williams o *Y Gododdin*) cawn yr odl –*an* o linell 1 i 5 (y mae 'ei dalfrith' yn llinell 1 yn fath o air cyrch). Yna cawn yr odl –*on* o linell 6 i 9. Sylwer fod –*an* ac –*on* yn proestio, yn rhyw fath ar hanner odl. Y mae proest, fel odl, yn cyfeirio at gyfatebiaeth diwedd geiriau. Mewn odl y mae'r llafariad/ llafariad, a'r diwedd o gytsain neu gytseiniaid (lle y mae rhai) yr un fath, er enghraifft, *cân* : *tân*; *taw* : *llaw*. Mewn proest y mae'r llafariad/ llafariad yn amrywio a'r gytsain/ gytseiniaid ar y diwedd (lle y mae rhai) yr un fath, er enghraifft: *tân* : *sôn*; *iawn* : *mewn*. Y mae llinellau 10-11 yn odli, a llinellau 12-15 yn odli bob yn ail â phroestio.

## Y Gododdin, Aneirin

Yn y cyfnod dan sylw, ail hanner y chweched ganrif, yr oedd byddinoedd yr Eingl yn gwthio i fyny tua gogledd Prydain a thua'r gorllewin. Y mae'r rhan fwyaf o awdlau *Y Gododdin* (ond nid i gyd) yn sôn am gyrch gan dri chant o filwyr dethol Gododdin yn wynebu nifer o dros 50,000 o Eingl. Diddorol yw nodi mai'r un nifer, sef tri chant oedd yna o Spartiaid yn ymladd yn erbyn byddin enfawr y Persiaid yn yr hafn a elwid yn Thermopylae yn 480 C.C. Tri chant o filwyr dethol y Gododdin - gan amlaf, achos fe sonia rhai awdlau am dri chant chwe deg tri o filwyr dethol, sef rhif cyfrin. Yr oedd y milwyr wedi eu hel ynghyd o fwy nag un deyrnas i Ddin Eidyn gan bennaeth y Gododdin, sef gŵr o'r enw Mynyddawg Mwynfawr, yn ôl yr hen gred. Dewiswyd ymgyrchu yn erbyn yr Eingl mewn lle o'r enw Catraeth, neu Catterick fel y mae'r Saeson yn ei alw, man sydd gryn bellter o Ddin Eidyn. Fe hyfforddwyd y milwyr dethol a ddaeth i Ddin Eidyn am flwyddyn gyfan ac yna fe ymosodasant, yn erbyn byddin enfawr yr Eingl. Er i fyddin y Gododdin ymladd yn *arwrol* (gair pwysig iawn), colli a wnaethant - efallai i un, neu dri, neu bedwar ddod yn ôl yn fyw o'r alanas. Awdlau yn moli camp a gwroldeb di-ildio'r milwyr dethol hyn a geir yn *Y Gododdin*. Y mae'r math o lenyddiaeth fel hyn, sydd yn moli arwyr o filwyr, yn cael ei alw yn Llenyddiaeth Arwrol, a `dyw'r ffaith mai colli a wnaethant ddim yn menna dim ar eu harwriaeth. Yr oeddynt wedi ymladd i'r eithaf, ac wedi bod yn werth eu medd, sef y ddiod a yfent yn y llys yn Nin Eidyn: yr oedd yn ddywediad arferol (`fformiwla', fel y dywedir) yn y canu hwn eu bod yn `werth medd', sef wedi talu am y medd a yfasant yn llys pennaeth y Gododdin trwy ymladd, yn ddewr - y rhan fwyaf ohonynt hyd angau. Hynny yw, yr oeddynt wedi cyflawni rhyw fath o `gytundeb' rhyngddynt a'r pennaeth.

Barddoniaeth a oedd yn cael ei llefaru, neu ei datgan - i gyfeiliant telyn, y mae'n debyg - oedd awdlau Aneirin. Fe gadwyd yr awdlau ar eu cof gan feirdd llys a oedd yn eu traddodi, sef eu dysgu ar gof, i'w disgyblion. Gan fod mwy nag un fersiwn o rai awdlau, y mae'n amlwg fod yna newidiadau'n digwydd wrth iddynt gael eu traddodi; ond yr hyn sy'n drawiadol yw fod cymaint wedi ei gadw'n ofalus ar lafar cyn i'r cerddi gael eu hysgrifennu am y tro cyntaf ganrifoedd ar ôl iddynt gael eu cyfansoddi. Y mae Llyfr Aneirin yn llawysgrif sydd yn `gynnyrch sgriptoriwm profiadol', yn ôl yr awdurdod hwnnw ar lawysgrifau, Daniel Huws. Y mae'n perthyn i ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg, ac efallai - efallai - mai yn abaty Ystrad Marchell yr ysgrifennwyd hi. Ond gwyddom fod ei chynnwys yn hysbys cyn amser y cofnodi hwn oherwydd fod Owain Cyfeiliog, tywysog Powys (cc1130 - 1197) wedi cyfansoddi cerdd o'r enw `Hirlas Owain' sydd yn dangos gwybodaeth o waith Aneirin.

## AWDL XXIV

Awdl yw hon i arwr o'r enw Buddfan (Budd + ban = uchel: un da am hel ysbail; neu, un da am roi'n hael) fab Bleiddfan (Blaidd + ban: blaidd nodedig – roedd 'blaidd' yn enw canmoliaethus am arwr). Fe'i lladdwyd wrth frwydro – yng Nghatraeth, y mae'n debyg – ac fe'i claddwyd o dan Fryn Eleirch. Lluosog y gair 'alarch' yw 'Eleirch'. Gan fod 'eleirch' neu 'elyrch' yn adar dŵr, a'u bod i'w cael o gwmpas y bryn hwn, 'dyw hi ddim yn syndod fod yna ddŵr a thonnau lle'r oedd corff yr arwr cyn iddo gael ei gladdu.


Bu'n rhaid newid mymryn ar eiriau cyntaf yr awdl, sef newid 'y dwy ysgwyd' (y ddwy darian) yn 'ardwy ysgwyd' (yn ei amddiffyn â tharian). Y mae'n bosib fod y gair ansicr 'talfrith' yn cyfeirio at 'dâl' ('tâl', fel yn talcen), sef 'blaen' 'brith' neu 'liwgar' ei darian. Y mae sôn am arwr yn symud, neu drotian, fel ceffyl ifanc, yn rhoi syniad da inni am ieuencid a natur fywiog Buddfan. Ar ôl creu argraff sydyn o'r arwr, y mae Aneirin yn mynd rhagddo i greu argraff (y mae Canu Aneirin yn llawn argraffiadau) o'r brwydro gan gyfeirio at ddau beth, sef twrw a thân. Yna, fel y gellid disgwyl, ceir disgrifiad o'r arwr yn y frwydr, yn taflu gwaywffyn oedd yn sgleinio fel yr haul. Yna, daw'r math o wrthgyferbyniad a geir yn gyson yn y canu hwn, sef symud o'r ymladd dewr i ladd yr arwr. Nodir hynny trwy ddisgrifiad sy'n arferol yn y canu, sef dweud fod yr arwr yn fwyd, yn ysglyfaeth, yn 'elw' i frain: a chofier fod brain ar feysydd brwydr i'w gweld yn y cyfnod hwn, fel mewn cyfnodau diweddarach. Yna daw nodyn o dristwch i'r awdl wrth i'r bardd sôn am yr 'eryr' (sydd yn ddelwedd gadarnhaol am yr arwr) yn y rhydau, sef y manau ar afonydd neu ddyfroedd lle y byddai dwy fyddin yn arfer ymladd wrth geisio croesi, am fod y dŵr yn fas yno. Ar ôl iddo gael ei ladd, bu tonnau'n torri dros gorff Buddfan. Yna cawn un o linellau mwyaf adnabyddus *Y Gododdin*: 'Beirdd byd, barnant wŷr o galon', llinell sy'n crynhoi swyddogaeth bardd yn y cyfnod hwn, ac wedyn yn y traddodiad Cymraeg, ac yn dweud wrthym mai'r hyn a wnâi oedd 'barnu' arwyr dewr. Yna cawn linellau am rinweddau Buddfan, a gwrthgyferbyniad eto i hyn, mewn geiriau sydd yn sôn am ddifetha ei filwyr. Diwedda'r awdl drwy sôn am gorff yr arwr yn y dŵr cyn iddo gael ei gladdu. Sylwer fod yna ryw fath o sangiad canmoliaethus (sef sylw mewn cromfachau, fel petai) yn y frawddeg olaf hon. Yna fe gawn enw yr arwr a'i dad, peth arferol yn y canu, a chawn un gair o fawl i derfynu, sef 'dihafarch', i wneud yn siŵr fod y cyfan yn diweddu, nid mewn galar ond mewn gorfoledd arwrol.

# Y Gododdin, Aneirin



PRYDAIN FORE  
(Map gan Melville Richards.)

# Y Gododdin, Aneirin



*DIN EIDYN HEDDIW*

# Y Gododdin, Aneirin



*NEUADD YN AMSER ANEIRIN*

*Ail hanner VI Ganrif O.C. (Argraff ohoni gan Allan Sorrell).*